

Cyngor Dinas Casnewydd Cynnig Ad-drefnu Ysgolion Adroddiad Gwrthwynebu

**Cynnig i sefydlu ysgol gynradd newydd ar ddatblygiad Glan Llyn
o fis Medi 2019 ymlaen**

Cefndir

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefnu Ysgolion Gorffennaf 2013 ac mae'n cynnwys crynodeb o'r gwrthwynebiadau wedi'u derbyn yn erbyn y cynnig statudol ac ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau hyn.

Cynnig Statudol

Cyhoeddodd y Cyngor gynnis statudol ar 28 Chwefror 2018 tan 28 Mawrth 2018 i sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Saesneg a gynhelir gan y gymuned ar ddatblygiad Glan Llyn ar gyfer disgyblion rhwng 3 a 11 oed.

Cynhaliwyd cyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Gellir gweld adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgynghoreion ac ymateb y Cyngor ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd.

Cyfeiriodd yr adroddiad ar yr ymgynghoriad at yr amcanestyniadau diweddaraf ar gyfer disgyblion sy'n nodi, yn Ionawr 2019, y byddai tua 105 o leoedd ychwanegol mewn ysgolion Cymraeg, ysgolion Saesneg ac ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir yn yr ardaloedd clwstwr lleol dynodedig ar ôl ystyried nifer y tai gaiff eu hadeiladu ar y datblygiad newydd.

O ganlyniad, argymhellodd yr adroddiad y ceisir am ganiatâd i symud y cynnig yn ei flaen trwy gyhoeddi hysbysiad statudol sy'n nodi dyddiad gweithredu newydd sef 1 Medi 2019, a chafodd yr hysbysiad ei gymeradwyo a'i gyhoeddi'n unol â hynny. Byddai'r dyddiad agor hwn sydd wedi'i oedi yn galluogi amserlen hirach i sefydlu'r ysgol newydd yn effeithiol o ran penodi staff a chaffael adnoddau.

Cyhoeddwyd y cynnig statudol ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd a chafodd copïau eu harddangos yn yr ardal leol gan yr ysgol, gan gynnwys yn y ddwy swyddfa werthu ar y datblygiad. Hefyd cafodd manylion yn cadarnhau cyhoeddi'r hysbysiad eu rhannu gyda'r holl randdeiliaid fel y nodir yn y Cod Trefnu Ysgolion statudol, a'r anheddau y mae pobl yn byw ynddynt ar ddatblygiad Glan Llyn.

Gwrthwynebiadau i'r Cynnig ac ymatebion yr ALI

Cafwyd 15 gwrthwynebiad yn ystod cam yr hysbysiad statudol, yr oedd 13 ohonynt gan breswylwyr y datblygiad yn nodi pryderon am y dyddiad gweithredu wedi'i oedi. Roedd y ddau wrthwynebiad arall a gododd bryderon am y ddarpariaeth iaith arfaethedig, gan randdeiliaid yn y sector addysg Gymraeg.

Dyddiad Gweithredu wedi'i Oedi

Cyfeiriodd y pwyntiau penodol a godwyd at:

- Y ffaith na chafodd yr oedi posibl ei gynnwys fel dewis yn yr ymgynghoriad gwreiddiol ac nid oedd yn deg bod y Cyngor yn cyflwyno hyn yn ystod cam yr hysbysiad statudol;
- Roedd y rhaglen adeiladu eisoes wedi'i datblygu'n helaeth ac felly mae'n debygol y bydd yr ysgol yn parhau i fod yn wag am hyd at un flwyddyn academaidd;
- Diffyg dilyniant o ran darpariaeth i ddisgyblion;
- Pellter ac amseroedd teithio sy'n gysylltiedig â theithio i ysgolion amgen;
- Ystyriaethau arbennig y dylid eu rhoi i ddisgyblion yr effeithir arnynt mewn perthynas â pholisïau'r Cyngor ynghylch Derbyn i Ysgolion a Thrafnidiaeth Rhwng y Cartref a'r Ysgol.

Ymatebion yr ALI: Mae'n gywir na chafodd dyddiad gweithredu wedi'i oedi ei gynnwys fel dewis yn y ddogfen ymgynghori ffurfiol, gan mai'r bwriad gwreiddiol oedd sefydlu'r ysgol o fis Medi 2018. Fodd bynnag yn dilyn diwedd y cyfnod ymgynghori ffurfiol, yn ôl yr

amcanestyniadau ar gyfer disgyblion a oedd ar gael ar yr adeg honno, roedd digon o leoedd yn yr ardal leol i gefnogi'r dyddiad gweithredu wedi'i oedi.

Mae profiadau diweddar y Cyngor o agor ysgol newydd yn cefnogi'r angen, lle bo'n bosibl, am amserlen hirach ar gyfer sefydlu'r ysgol yn effeithiol o ran penodi staff a chaffael adnoddau. Mae gwybodaeth ddiweddar gan y datblygwr wedi cadarnhau y caiff yr adeilad ei drosglwyddo i'r Cyngor ar ddiwedd Awst 2018. Nid yw'r dyddiad hwn fodd bynnag yn cynnwys cynllun wrth gefn ar gyfer unrhyw faterion a allai godi yn ail ran y rhaglen. Ni fyddai hyn yn rhoi digon o amser i'r Cyngor allu hwyluso'r gwaith o gael offer, gosodiadau a dodrefn cyn dechrau'r flwyddyn academaidd. Nawr, bydd y gwaith hwn yn cael ei gynllunio ar gyfer tymor yr hydref 2018. Bydd y Cyngor yn gyfrifol am yr holl gostau sy'n gysylltiedig â diogelu'r adeilad yn ystod y cyfnod rhwng trosglwyddo ac agor yr ysgol.

Pan fydd yr ysgol newydd yn agor, bydd rhieni wrth gwrs yn gallu gwneud cais i'w plant fynychu a gallai hyn gynnwys eu trosglwyddo o ysgolion eraill. Fodd bynnag ni fydd gofyniad gorfodol i drosglwyddo plant yn y modd hwn – y rhieni fydd yn dewis a gânt eu trosglwyddo. Pan fo plant wedi'u hymsefydlu mewn ysgolion eraill ac yr hoffai rhieni iddynt barhau i fynychu'r ysgolion hyn, ni fydd y Cyngor yn gofyn bod plant sy'n byw ar y datblygiad yn symud i'r ysgol newydd yn eu dalgylch. Serch hynny, caiff unrhyw geisiadau derbyn i'r ysgol a gyflwynir eu hasesu yn unol â'r Polisi Derbyn i Ysgolion cyhoeddus ac nid oes bwriad i newid hyn i gyfeirio'n benodol at blant sy'n byw yng Nglan Llyn. Yn unol â'r polisi hwn, gall rhieni ddewis ysgol benodol, ond nid oes gwarant y caiff eu plant eu derbyn yn yr ysgol ddewis, hyd yn oed os mai ysgol y dalgylch yw hi. Derbynnir plant i ysgolion yn unol â dewis rhieni, ar yr amod bod lleoedd ar gael. Pan fo mwy o geisiadau na'r lleoedd sydd ar gael mewn ysgol, bydd ceisiadau am ysgolion a ffefrir dal i gael eu hystyried, ond rhoddir meini prawf gordanysgrifio'r Cyngor ar waith i bennu blaenoriaeth. Rhoddir blaenoriaeth i blant y cadarnheir eu bod yn byw yn nalgylch yr ysgol ar yr adeg y gwneir cais. Fodd bynnag nid oes gwarant y caiff unrhyw blentyn ei dderbyn ni waeth am amgylchiadau.

Mae polisi'r Cyngor ynglŷn â Thrafnidiaeth Rhwng y Cartref a'r Ysgol yn cynnig trafndiaeth am ddim i ddisgyblion oedran cynradd sy'n byw 2 filltir neu fwy o ysgol eu dalgylch, neu'r ysgol agosaf sydd ar gael. Mae hyn yn cyd-fynd â chyfyngiadau statudol wedi'u nodi ym Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru). Ar hyn o bryd, yr ysgol gynradd Saesneg agosaf sydd ar gael ar gyfer cartrefi datblygiad Glan Llyn yw Ysgol Gynradd Llswyry, y cyfrifir ei bod yn llai na 2 filltir i ffwrdd. Fel y nodir uchod, gall rhieni nodi eu dewis ysgol ond os byddant yn penderfynu anfon eu plant i ysgol nad yw yn y dalgylch neu ysgol nad yw'r un agosaf, nhw fydd yn gyfrifol am yr holl gostau a threfniadau teithio. Wrth bennu pellteroedd a chymhwysedd ar gyfer ceisiadau trafndiaeth rhwng y cartref a'r ysgol am ddim, mesurir pellteroedd fel y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael lle bo'n bosibl, trwy ddefnyddio llwybrau swyddogol, sef y Rhwydwaith Cerdded Diogel. Mae'r Cyngor yn ystyried bod llwybr 'ar gael' os gall plentyn, yng nghwmni oedolyn yn ôl yr angen, gerdded i'r ysgol yn rhesymol ddiogel, a'r rhieni unigol, nid y Cyngor, fydd yn penderfynu a fydd y plentyn yn mynd ar ei ben ei hun. Mae'n anochel y bydd traffig yn drwm ledled y ddinas ar ddechrau ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol, ond mae llawer o ysgolion cynradd ledled y ddinas y gellir eu cyrraedd yn hawdd yn y rhan fwyaf o achosion.

Darpariaeth iaith

Cafwyd dau wrthwynebiad a gyfeiriodd at y pwyntiau canlynol:

- Nid oedd y cyfnod cyn ymgynghori'n ddigon helaeth ac roedd yn brin o hygyrdded;
- Cafodd y ddogfen ymgynghori ei pharatoi heb ddiwydrwydd dyladwy, ac;
- Nid yw'r cynnig i sefydlu ysgol cyfrwng Saesneg yn hyrwyddo mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg.

Ymatebion yr ALI: Er i'r arolwg cyn ymgynghori anffurfiol gael ei gynnal, a alluogodd y Cyngor i gasglu barn preswylwyr presennol Glan Llyn, nid hon oedd yr unig dystiolaeth a ddefnyddiwyd i benderfynu ar iaith yr ysgol newydd arfaethedig. Ynghyd â'r adborth uniongyrchol hwn gan randdeiliaid, mae un ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg - Ysgol Gymraeg Casnewydd – ychydig mwy na 2 filltir o'r ysgol newydd arfaethedig ac ar adeg yr ymgynghoriad roedd lleoedd gwag ymhob grŵp blwyddyn o'r dosbarth Derbyn i Flwyddyn Chwech yn yr ystâd ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg.

Er bod lleoedd hefyd ar gael yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg cyfagos, mae canran y lleoedd gwag yn is yn yr ystâd ysgolion Saesneg ar y cyfan. Gwelir tystiolaeth o hyn yn y ffaith bod 13% o leoedd gwag ar gael ar hyn o bryd yn Ysgol Gymraeg Casnewydd o'i gymharu â dim ond 9% yn yr ystâd cyfrwng Saesneg ym mhob ysgol gynradd yn nwyrain y ddinas. O ganlyniad, penderfynwyd tystiolaethu ysgolion cyfrwng Saesneg yr ardal.

O ran nodau tymor hwy, mae Strategaeth Iaith Gymraeg 2017-2022 Cyngor Dinas Casnewydd yn ymrwmo i gynyddu canran y disgyblion mewn addysg Gymraeg o 4% i 5% dros y pedair blynedd nesaf.

O ystyried y bydd yr ysgol arfaethedig yn un cyfrwng Saesneg, yn hytrach nag un cyfrwng Cymraeg, ni fydd y datblygiad hwn yn cyfrannu mewn ffordd ystyrlon at fwrw'r targed a bennwyd gan Lywodraeth Cymru na'r Awdurdod Lleol yn yr achos hwn. Fodd bynnag, mae'r datblygiad yn agos at Ysgol Gymraeg Casnewydd lle mae lleoedd gwag ar hyn o bryd.

Er bod dynodiad arfaethedig yr ysgol gynradd newydd hon fel un cyfrwng Saesneg yn golygu na fydd yr awdurdod yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at fwrw targed Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn ymrwymedig drwy'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i gwmpasu'r angen am ddarpariaeth Gymraeg yn yr holl ysgolion newydd a adeiledir. Caiff yr holl ymarferion cwmpasu yn y dyfodol eu hymestyn y tu hwnt i ardal uniongyrchol y datblygiadau.

Argymhellion

Argymhellir bod y cynnig hwn yn cael ei symud ymlaen at y cam penderfynu terfynol. Fodd bynnag er bod gwrthwynebiadau wedi'u derbyn yn ystod cam y cynnig statudol, bydd angen i Gabinet y Cyngor sy'n gweithredu fel y Panel Penderfynu Lleol wneud y penderfyniad hwn, a chaiff hwn ei drafod yn y cyfarfod a gynhelir ym Mai 2018.

Yn unol â'r Cod Trefnu Ysgolion (2013) cyhoeddir yr adroddiad hwn yn electronig ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd www.newport.gov.uk

I ofyn am gopi caled (papur) o'r ddogfen hon cysylltwch â Rheolwr Datblygu Gwasanaeth Addysg Cyngor Dinas Casnewydd ar 01633 656656 neu e-bostiwch school.reorg@newport.gov.uk